Rheoli alergenau:
cwestiynau y gall swyddogion gorfodi awdurdodau lleol fod eisiau eu holi i arlwywyr

ASIANTAETH SAFONAU BWYD

Cwestiynau a awgrymir i swyddogion eu gofyn wrth archwilio mesurau rheoli alergenau yn ystod arolygiad o safle arlwyo

Enw a chyfeiriad y safle: _____

Enw'r arolygwr: Dyddiad: Cyf:

	Ydy (rhowch dystiolaeth)	Nac ydy	Ddim yn berthnasol
A yw staff yn gwybod beth yw alergedd bwyd a beth yw'r peryglon? *Gofynnwch gwestiynau cyffredinol megis 'pa fwydydd sydd gan amlaf yn cael eu cysylltu ag alergedd?' a 'pha symptomau all rhywun sy'n cael adwaith alergaidd eu dioddef?'*			
A yw'r staff wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant ar drin alergenau bwyd?			
A oes unrhyw weithdrefnau wedi'u cofnodi ar gyfer trin alergenau yn y system rheoli diogelwch bwyd ac, os mai ysgol yw'r safle o dan sylw, cynllun rheoli y plentyn/polisi'r ysgol?			
A oes unrhyw weithdrefnau staff ar gyfer cyfathrebu cyngor ar alergenau bwyd i gleientiaid/cwsmeriaid?			

	Ydy (rhowch dystiolaeth)	Nac ydy	Ddim yn berthnasol
Pan fydd cwsmer yn gofyn am bryd nad yw'n cynnwys cynhwysyn alergaidd penodol, a oes gweithdrefnau digonol ar waith o ran paratoi/trin bwyd i sicrhau nad yw'r bwyd yn cael ei groeshalogi â bwydydd eraill? *Edrychwch i weld a oes gweithdrefnau digonol ar waith o ran glanhau, gwahanu bwydydd, labelu cynhwysion yn glir, paratoi a thrin y pryd ac ati.*			
A yw'r bwydydd a gyflenwir yn cael eu gwirio am gynhwysion alergenaidd?			
A yw'r bwydydd a gyflenwir yn cael eu gwirio i sicrhau bod popeth a archebwyd wedi'i gyflenwi?			
A oes gweithdrefnau digonol ar waith i sicrhau bod cynhwysion yn cael eu storio'n ddiogel? *Sicrhewch :* • *fod enw'r cynhwysyn wedi'i nodi'n glir* • *bod cynhwysion wedi'u storio mewn cynwysyddion â chaead a bod pob caead yn ei le* • *nad yw'n bosibl gollwng cynhwysion alergenaidd i mewn i gynwysyddion eraill wrth eu trin*			
A oes unrhyw arwyddion yn cael eu harddangos yn y gegin neu'r bwyty i atgoffa staff am drin alergenau?			
A yw'r fwydlen wedi'i dylunio i gynnwys unrhyw gynhwysion alergenaidd yn enwau'r prydau neu yn y disgrifiadau ohonynt?			
Unrhyw bryderon/sylwadau eraill? *Er enghraifft, a yw'r cogydd yn cadw cofnod o'r cynhwysion a ddefnyddir mewn pryd, ac a yw'r staff gweini yn cael eu hysbysu pan fydd rysáit neu bryd yn cael ei newid?*			

Hoffai'r Asiantaeth Safonau Bwyd ddiolch i Wasanaeth Iechyd yr Amgylchedd a Gwasanaeth Trwyddedu Cyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Rochdale am eu help wrth gynhyrchu'r ddogfen hon.